# Mae ymrestru awtomatig yn dod

## Mae pensiynau gweithle'n newid

Mae'r llywodraeth wedi cyflwyno cyfraith newydd wedi'i gynllunio i helpu pobl gynilo mwy ar gyfer eu hymddeoliad. Mae angen i holl gyflogwyr ymrestru eu gweithwyr i mewn i gynllun pensiwn gweithle os nad ydynt mewn un yn barod, yn dechrau o Hydref 2012.

## Beth yw pensiwn gweithle?

Ffordd i gynilio ar gyfer eich hymddeoliad yw pensiwn gweithle wedi ei drefnu drwy eich cyflogwr. Gelwir weithiau'n 'bensiwn cwmni', 'pensiwn galwedigaethol' neu bensiwn gwaith'.

## Pryd fydd hyn yn digwydd?

Bydd yr amseriad o ba bryd fydd cyflogwyr yn ymrestru eu gweithwyr yn dibynnu ar eu maint. Bydd y Rheolydd Pensiynau yn hysbysu cyflogwyr o'r union ddyddiad. Mae cyflogwyr mawr iawn yn ei wneud gyntaf, yn dechrau o Hydref 2012.



ymrestru awtomatig

Adran Gwaith a Phensiynau

## Pwy fydd yn cael eu hymrestru i mewn i gynllun pensiwn gweithle yn awtomatig?

Yn dechrau o fis Hydref 2012, bydd gweithwyr yn cael eu hymrestru yn awtomatig i mewn i gynllun pensiwn gweithle gan eu cyflogwyr os:

- nid ydynt yng nghynllun pensiwn eu cyflogwr yn barod;
- ydynt yn 22 oed neu drosodd;
- ydynt o dan oedran Pensiwn y Wladwriaeth;
- ydynt yn ennill mwy na £9,440 y flwyddyn (gallai'r ffigwr hwn newid); ac os ydynt
- yn gweithio, neu weithio fel arfer, yn y DU.

Bydd gweithwyr yn gallu eithrio os ydynt eisiau gwneud hynny. Ond os ydynt yn aros i mewn bydd eu cyflogwr yn cyfrannu tuag at eu pensiwn a byddant yn cael rhywfaint o ryddhad treth. Bydd unrhyw un sy'n eithrio, neu'n rhoi'r gorau i wneud taliadau i mewn i'w pensiwn, yn cael eu hymrestru yn ôl i mewn yn awtomatig ar ysbeidiau rheolaidd. Gallant eithrio eto os ydynt eisiau.

Gallwch ddod o hyd i fwy o wybodaeth yn:
**www.dwp.gov.uk/workplacepension**

Gellir cael gwybodaeth i gyflogwyr a busnesau ar Wefan Y Rheoleiddiwr Pensiynau (TPR) yn:
**www.thepensionsregulator.gov.uk**

Dylai unigolion ymweld â:
**www.gov.uk/workplacepension**

Canllaw yn unig yw'r daflen ffeithiau hon ac nid yw'n cwmpasu pob amgylchiad. Mae'r wybodaeth sy'n cael ei gynnwys yn y ddogfen hon yn gywir fel y mae ar Mawrth 2013. Efallai bydd rhywfaint o'r wybodaeth yn mynd yn anghywir dros amser, er enghraifft oherwydd newidiadau i'r gyfraith.



Os byddwch yn eithrio, ni fyddwch yn elwa o'r arian ychwanegol gan eich cyflogwr a'r llywodraeth.

Adran Gwaith a Phensiynau

Cyhoeddwyd gan
Yr Adran Gwaith a Phensiynau

Mawrth 2013

**www.dwp.gov.uk**

Mae ymrestru awtomatig yn dod
(cyhoeddiad diwygiedig)

ISBN 978-1-78153-451-9